a chan edrych i fyny i'r nef ochneidiodd a dweud wrtho, "Ephphatha", hynny yw, "Agorer di". **(Marc 7:34)**

Dyma ymadrodd hyfryd gan Iesu yn Aramaeg er mwyn agor clustiau a lleferydd rhyw ddyn rhywle ym mro'r Decapolis. Mae'r darn yn dweud llawer wrthym am y Gwaredwr ei hun ac am ei ddull o weinidogaethu i amrywiol bersonau.

Cefndir y darn

Mae'r Arglwydd wedi bod i fyny yn ardal Tyrus a Sidon, ond erbyn hyn mae wedi dod nôl at ochr ddwyreiniol Môr Galilea trwy ran ogleddol y Decapolis. Roedd ardal y Decapolis (deg dinas) yn rhedeg yn fras ar ochr ddwyreiniol yr Iorddonen o Ddamascus yn y gogledd i Philadelphia yn y de, gyferbyn â Bethania.

Cais y bobl

Mae pobl yn dod â dyn byddar oedd ag atal dweud arno at Iesu. Maen nhw'n gofyn ac yn disgwyl i Iesu ei iacháu trwy osod ei law arno. Efallai eu bod wedi gweld neu wedi clywed am Iesu yn gwneud hyn o'r blaen, ac yn tybio mai felly yr oedd yn gwella rhywun bob tro.

Ac mae'r un perygl i ni wrth i ni weddïo dros eraill. Wrth weddïo dros eu hachubiaeth, mae'n bosibl i ni ddweud wrth yr Arglwydd sut y dylai weithredu. Efallai ein bod yn disgwyl i'r person fynd ar ryw gwrs arbennig neu i ryw gynhadledd arbennig, a chawn ein siomi os nad yw hynny'n digwydd. Mae'n bosibl bod gan yr Arglwydd rywbeth arall mewn golwg.

Cyffyrddiad personol Iesu

Ond mae'r Arglwydd yn cyffwrdd ac yn delio â'r unigolyn yma mewn ffordd ychydig yn wahanol i'r disgwyl. Mae'n bwysig eithriadol i ni gofio bod yr Arglwydd yn trin pawb fel unigolion amrywiol, yn ôl eu hanghenion arbennig. Er ei fod wedi dod i'n hachub o'n pechodau ac i'n harwain i berthynas iawn â Duw, gall wneud hynny trwy ddulliau ac amgylchiadau gwahanol.

Neilltuo. Yn gyntaf, mae Iesu'n cymryd y dyn byddar i'r naill ochr. I mi, mae hyn yn dangos dealltwriaeth arbennig o natur byddaredd. Mae bod mewn tyrfa yn ddryslyd i'r byddar, tra bod cael sylw unigol yn help aruthrol i ddeall beth sy'n digwydd.

Bysedd yn y clustiau. Mae'r arwydd yma'n fwy penodol na gosod llaw ar rywun, ac mae'r Arglwydd yn calonogi'r dyn gan ddweud ei fod yn mynd i wella ei glustiau.

Bys ar y tafod. Eto mae'n dangos ei fod yn mynd i ryddhau ei leferydd. Mae'n cyfathrebu trwy iaith arwyddion oedd yn arbennig i'r unigolyn hwn.
Edrych tua'r nef. Dyma arwydd fod Duw o'r nef yn mynd i'w fendithio trwy Iesu.
Ocheneidio. Dyma'r sain cyntaf gan Iesu. Dyma arwydd hyfryd o gydymdeimlad y Gwas Dioddefus oedd wedi dod i gymryd ein doluriau ni ac i ddwyn ein hanwireddau.
Ephphatha. Yna daw'r gorchymyn syml i'w glustiau a'i enau agor, fel petai. Yn syth mae'r dyn yn clywed ac yn llefaru'n eglur. Mae'r cais wedi ei ateb a'r wyrth wedi ei chyflawni.

Neges i ni

Rwy'n siŵr fod sawl neges i ni yn yr adnodau hyn:

Ddylem ni ddim ceisio arwain yr Arglwydd a dweud wrtho trwy ba ddull i weithio ym mywyd rhywun. Pan fyddwn yn clywed pobl yn tystio i waith yr Arglwydd yn eu bywydau, mae'n hyfryd clywed amrywiaeth. Bydda i'n teimlo braidd yn sinicaidd wrth glywed pawb yn tystio gyda'r un ymadroddion yn union.

Rhaid i ni beidio â phoeni os nad yw Duw wedi gweithio yn ein bywyd ni yn yr un ffordd ag y mae ym mywyd rhywun arall. Rwy'n cofio clywed dyn yn tystio i'w droedigaeth o fod yn byw ar y stryd ac yn gaeth i gyffuriau ac alcohol. Roedd ei deulu wedi ei ddiarddel a phawb wedi anobeithio amdano. Serch hynny, daeth grŵp o Gristnogion i'w weld yn yr ysbyty pan oedd yn anymwybodol a gweddïo drosto yn enw Crist. Cafodd ei arbed a'i achub o'i fywyd ofer i fod yn Gristion gloyw. Rhaid cyfaddef fy mod yn teimlo'n genfigennus am beth amser, gan fod fy mhrofiad i braidd yn 'ddiflas' o'i gymharu â phrofiad y brawd yma. Ond, trwy ei ras, fe ddes i sylweddoli bod Duw wedi fy nghadw rhag nifer o'r problemau gafodd ef, a'i fod wedi delio â mi mewn ffordd wahanol, er nid llai rhyfeddol yn y pendraw.

Os oedd yr Arglwydd yn gallu agor clustiau a rhyddhau tafod y dyn yna, gall agor clustiau a genau ysbrydol pobl Cymru heddiw i glywed ei hyfryd lais ac i fynegi ei foliant yn eu bywydau. Gadewch i ni ddal ati i weddïo dros ein cenedl.